Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Dyffryn Y Swistir

Heol Beili Glas
Dyffryn Y Swistir
Felin-foel
Llanelli
SA14 8DS

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Dyffryn Y Swistir

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymunedol Dyffryn Y Swistir |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 1 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn berthnasol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 244 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 177 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 37 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 6.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 13.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 3.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4.0% |

| | |
|---|---|
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 11/03/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/10/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Dyffryn Y Swistir yn gymuned gynhwysol, sy'n rhoi pwyslais cryf ar ddysgu, lles a datblygiad personol disgyblion. Mae gan y pennaeth weledigaeth bwrpasol, sy'n helpu sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu diddorol mewn amgylchedd dysgu difyr a gofalgar. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ymddygiad rhagorol a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion. Mae'r weledigaeth synhwyrol, ganmoladwy a chadarn hon, sy'n cynnwys cyfraniadau gan staff a'r gymuned ehangach, yn cefnogi arferion gwella'r ysgol yn gadarn.

Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn gydlynus i sicrhau darpariaeth gwricwlaidd eang a chytbwys. Maent yn dîm o staff ymroddgar a brwdfrydig sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo dysgu a lles disgyblion yn bwrpasol. Maent yn gweithio'n ddiwyd gyda rhieni ac asiantaethau allanol ac yn gwybod yn dda am anghenion y disgyblion a'u cymuned. Mae staff yn defnyddio ardaloedd o dir helaeth yr ysgol a'u hardal leol yn effeithiol i hyrwyddo cwricwlwm pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw'r adnoddau a'r cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion iau yn deg ar draws dosbarthiadau sylfaen.

Mae cyflymdra a llif y gwersi'n cyfateb yn dda i anghenion dysgu disgyblion, ac mae adborth athrawon i ddisgyblion i wella'u dysgu yn briodol. Mae diffyg cysondeb yn ansawdd adborth athrawon, ac nid yw'n cynorthwyo disgyblion i gyflawni'r camau nesaf yn eu dysgu yn ddigon effeithiol.

Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn darparu cyfleoedd ysgogol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau'n bwrpasol ar draws y meysydd dysgu. Mae'r staff yn fodelau iaith medrus ac yn holi disgyblion yn dda, ac mae hyn yn arwain at gynnydd cryf ym medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd heriol i gymhwyso'u medrau ar lefelau priodol ar draws y cwricwlwm.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith agos a ffyddlon. Mae staff yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau yn ddeallus, sy'n datblygu eu parch am bobl eraill yn llwyddiannus. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol effeithiol, sy'n creu ymwybyddiaeth dda o'u hardal leol a gwerthfawrogiad cryf o ddiwylliannau eraill.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Gwella effeithiolrwydd adborth i dargedu'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn fuddiol

A2. Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ar lefelau sy'n addas o heriol ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Dyffryn Y Swistir yn gymuned ddysgu hapus, gynhwysol a chefnogol ac mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae'r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol pwrpasol ac arloesol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, y staff a'r disgyblion. Mae hi'n gweithio'n dda gyda'r tîm arweinyddiaeth, y staff a'r llywodraethwyr i sicrhau profiadau dysgu difyr a diddorol ar gyfer disgyblion. Mae hyn wedi'i seilio ar brofiadau dysgu ysgogol ar gyfer disgyblion ac arferion gofal a lles pwrpasol sy'n cynorthwyo pob aelod o gymuned yr ysgol.

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn ystyried ystod eang o dystiolaeth i nodi blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth i wella lles, profiadau dysgu a medrau disgyblion. Mae athrawon, staff cymorth a llywodraethwyr yr ysgol yn cyfrannu at y prosesau gwerthuso yn bwrpasol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o bwysigrwydd eu rolau wrth ganolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth o ansawdd uchel sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion.

Mae arweinwyr yn gweithredu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hyrwyddo, datblygu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Maent yn rhannu syniadau ac yn mabwysiadu arferion effeithiol a gwerthfawr yn ddoeth, sy'n cyfrannu'n bwrpasol at ethos ac athroniaeth yr ysgol fel sefydliad sy'n dysgu. Mae arweinwyr yn cynorthwyo staff i fyfyrio ar, ac ystyried, effaith dysgu proffesiynol ar ddysgu a lles disgyblion, a'u datblygiad o ran ystod eang o fedrau. Er enghraifft, mae staff yn cynnal trafodaethau proffesiynol rheolaidd i adolygu agweddau penodol ar y cwricwlwm, eu harferion asesu a threialu dulliau a syniadau newydd i barhau i gefnogi cynnydd a deilliannau disgyblion.

Mae arweinwyr yn meithrin perthnasoedd effeithiol â bron pob un o'r rhieni. Mae'r sianelau cyfathrebu rheolaidd a chydweithrediad effeithiol yn hyrwyddo'r ysgol yn ei chymuned yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn gwybod am anghenion y disgyblion a'u cymuned yn dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni gefnogi lles a dysgu eu plant. Er enghraifft, mae staff yn cynnal nosweithiau croeso gyda rhieni a disgyblion am wahanol agweddau ar y cwricwlwm. Mae hyn yn cynorthwyo rhieni'n dda ac yn helpu datblygu eu dealltwriaeth o waith, lles a chynnydd eu plant.

Mae athrawon a staff cymorth yn ysbrydoli disgyblion, gan godi eu dyheadau'n llwyddiannus trwy osod disgwyliadau uchel yn ystod gwersi ac mewn gweithgareddau bob dydd. Mae hyn yn helpu sicrhau bod gan bron bob un o'r disgyblion agweddau brwdfrydig at ddysgu ac yn ymdrechu i gyfleu bod yr hyn y maent yn ei ddysgu, a sut, yn effeithiol. Mae athrawon a staff cymorth yn fodelau iaith effeithiol a medrus yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel ei gilydd. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n hyderus ac yn huawdl yn Saesneg, gydag oedolion a gyda'i gilydd. Mae staff

yn annog disgyblion i siarad Cymraeg a gwneud defnydd pwrpasol o'r iaith fel rhan graidd o ddysgu a chwarae'r disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio'n drylwyr i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae medrau darllen ac ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n gadarn. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'u medrau ysgrifennu cynnar a chreu marciau yn hyderus, ac wrth i'w medrau ddatblygu ymhellach wrth iddynt fynd yn hŷn, maent yn dechrau ysgrifennu brawddegau, gan ddangos ymwybyddiaeth dda o sillafu ac atalnodi sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu da, gan ddarllen ag ystyr a goslef effeithiol, ac ysgrifennu mewn ystod o genres difyr yn bwrpasol.

Mae athrawon yn cynllunio, yn paratoi offer ac yn cyflwyno tasgau mathemateg pwrpasol i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae athrawon a staff cymorth yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau rhifedd defnyddiol a phriodol. Yn ychwanegol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau digidol yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd heriol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar lefelau priodol ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm diddorol sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol a'r byd ehangach yn fedrus, er enghraifft trwy ddysgu am hanes y gronfa ddŵr yn Nyffryn Y Swistir a hanes cynhyrchu dur yn Llanelli. Yn ychwanegol, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd synhwyrol i ddisgyblion drafod materion pwysig, fel perthnasoedd ac amrywiaeth. Maent yn darparu profiadau difyr i ddisgyblion ddatblygu eu hagweddau cadarnhaol at ymwybyddiaeth ysbrydol a materion moesol, sy'n effeithio ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos parch at bobl eraill ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol hunaniaethau yn llwyddiannus. Yn ychwanegol, mae cwricwlwm yr ysgol yn datblygu medrau creadigol ac artistig disgyblion yn effeithiol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac mae'r perthnasoedd gwaith a'r parch rhwng staff a disgyblion yn gryf. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio â'u cyfoedion yn dda ac yn ystyried barn pobl eraill yn synhwyrol. Maent yn gwrando'n ofalus ar athrawon ac yn ymfalchïo yn eu gwaith a'u cynnydd, ac mae eu hymddygiad yn rhagorol. Maent yn gofyn cwestiynau perthnasol a gwerthchweil ac yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at drafodaethau dosbarth ac at grwpiau arweinyddiaeth disgyblion yr ysgol.

Mae athrawon yn esbonio tasgau'n glir ac yn cynorthwyo disgyblion i gyfrannu'n fodlon at eu dysgu. Mae athrawon yn sicrhau bod cyflymdra a llif da i wersi ac yn defnyddio ystod o

adnoddau ystyrlon i gefnogi dysgu disgyblion yn dda. Yn ychwanegol, mae athrawon yn gweithio'n gydlynol gyda staff cymorth i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion. Yn yr arferion addysgu a dysgu gorau, mae athrawon a staff cymorth yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i hyrwyddo dyfalbarhad ymhlith disgyblion. Mae hyn yn ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn eu dysgu ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw adborth athrawon yn arwain at y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae staff yn darparu amgylcheddau dysgu ysgogol i annog llwyddiant a brwdfrydedd ymhlith disgyblion. Mae hyn yn hyrwyddo dysgu a lles disgyblion yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol o'u mannau cychwyn. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ei chydlynu'n gadarn ac mae'n diwallu anghenion bron pob un o'r disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn effeithiol. Mae staff yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol yn llwyddiannus i gynorthwyo disgyblion, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd da yn unol â'u targedau a'u mannau cychwyn.

Mae staff yn defnyddio ardaloedd o dir helaeth yr ysgol a'u hardal leol i hyrwyddo cwricwlwm pwrpasol ac arloesol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r adnoddau a'r cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion iau yn deg ar draws dosbarthiadau sylfaen. Mae arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at amrywiaeth o ardaloedd tawel ac ysgogol, fel ei gilydd, yn cynnwys ardaloedd ymyrraeth deniadol. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r mannau hyn sydd wedi'u cynllunio'n ystyrlon i gefnogi dysgu disgyblion a mynd i'r afael â'u hanghenion unigol. Mae'r ardaloedd cymorth hyn yn meithrin lles disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft trwy ddarparu gofod digynnwrf ar gyfer disgyblion gorbryderus cyn iddynt ddychwelyd i'w gwersi.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/2025